Image not found or type unknown

# Eiriolaeth mewn gofal dementia

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Hydref 2018

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/pobl-â-dementia/eiriolaeth-mewn-gofal-dementia am y fersiwn diweddaraf.

Diben eiriolaeth yw ceisio sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, eu bod yn mynegi eu dymuniadau ac yn diogelu eu hawliau.

## Beth yw eiriolaeth yng ngofal dementia?

> *Mae sicrhau bod llais yr unigolyn yn parhau yn ganolbwynt i unrhyw weithredu neu benderfyniadau wrth wraidd cymorth a gofal sy'n seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn – Cynllun Gweithredu Dementia ar gyfer Cymru*

Trwy gydol profiad byw person o ddementia, bydd y math o gymorth y gallai fod ei angen arnyn nhw i fynegi eu barn, gwneud penderfyniadau a chael mynediad i hawliau amrywio.

Cydnabyddir bod y term "eiriolaeth" yn gallu cael ei ddefnyddio i olygu pethau gwahanol i wahanol bobl.

I rai, gellir ystyried gweithredu fel "eiriolwr" yn rhan o gyfeillgarwch neu berthynas deuluol â'r person neu gall olygu rôl gweithiwr cymorth mwy cyffredinol.

I eraill, rhan o'u rôl broffesiynol fydd bod yn eiriolwr i'r bobl y maent yn eu cynorthwyo.

Mewn rhai sefyllfaoedd, ni ellir ond ymgymryd â rôl eiriolwr gan berson sy'n hollol annibynnol i amgylchiadau personol y person ac unrhyw benderfyniadau neu weithrediadau sydd angen eu cymryd. Yr enw ar hwn yw 'eiriolwr annibynnol'.

Weithiau bydd angen cynnwys eiriolwr yn ôl y gyfraith ac mae meysydd penodol neu arbenigol o eiriolaeth, a ymgymerir gan eiriolwyr annibynnol arbenigol.

Ar wahân i pan fydd angen penodi eiriolwr yn gyfreithiol, nid bwriad y cynllun hwn yw rhagodi'r math o eiriolwr neu ddarparwr eiriolaeth ar wahanol gamau.

Fodd bynnag, dylid cydnabod gwerth posibl rôl eiriolwr annibynnol fel "llais y dinesydd" ar bob cam o brofiad byw person o ddementia, a dylid ei egluro a'i gynnig fel ymagwedd ar sail hawliau tuag at gyflwyno gwasanaeth.

## Eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol

Cyflwynodd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 rôl yr eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol (IMCA).

Mae IMCAs yn ddiogelwch cyfreithiol i bobl sy'n ddiffygiol o ran y galluedd i wneud penderfyniadau pwysig penodol.

Mae IMCAs yn cael eu gorchymyn yn bennaf i gynrychioli pobl pan nad oes un llais annibynnol, y tu hwnt i wasanaethau gofal, fel aelod o'r teulu neu ffrind, sy'n gallu cynrychioli'r unigolyn.

Mae Côd Ymarfer ar Eiriolaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn dweud y dylai awdurdodau lleol enwi pobl allai fod angen pobl eraill i wneud penderfyniadau ar eu rhan mor gynnar â phosibl yn y broses, rhag ofn bod angen eiriolwr arall.

## Adnoddau defnyddiol

Dysgwch fwy am eiriolaeth mewn gofal dementia.

Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn: Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth Annibynnol yng Nghymru

## Eisiau eich adborth

Helpwch ni i wella'r Adnodd dementia ar gyfer gweithwyr gofal proffesiynol drwy gael dweud eich dweud amdano yn ein harolwg byr pedair cwestiwn.